Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

LLEOLI LLEOEDD

TAFLEN YR ATHRO

Nodau

- Galluogi disgyblion i ddeall bod nifer o resymau pam y gwelir coed mewn gwahanol fannau yn y tirlun.
- Gofyn i'r disgyblion ysgrifennu adroddiad ar gyfer cynulleidfa benodol (tasg datblygu sgiliau cyfathrebu posibl). Byddant yn cymryd rôl arborealydd.
- Mae'r wers hon yn dilyn ymlaen o'r gweithgaredd DEALL LLEOEDD.

Agoriad

Defnyddiwch y PowerPoint am goed i annog y disgyblion i feddwl am syniadau ynglŷn â'r defnydd a wneir o goed. Mae'r lluniau'n dangos:

- Perllan – llwyn olewydd ger Môr y Canoldir
- Planhigfa goedwigaeth
- Coed mewn parc – hamdden
- Coeden Nadolig gyda goleuadau
- Ffin cae / cysgod i gnydau
- Ymyl cronfa ddŵr i rwystro pridd rhag golchi mewn i'r gronfa
- Cerflunwaith wedi'i greu o goeden
- Coed ar gwrs golff – peryglon/edrych yn hyfryd
- Cysgod ar ymyl ffordd yn Ffrainc
- Cartref gwiwer
- Coeden hynafol

Prif Weithgaredd

Dylai'r disgyblion gymryd rôl arborealydd i ysgrifennu adroddiad. Bwriad y gweithgaredd hwn yw annog y disgyblion i werthfawrogi'r gwahanol resymau pam y gwelwn goed yn y tirlun. Bydd nifer o resymau yn arbennig o berthnasol i'r lleoliad a ddefnyddiwyd gyda'r gweithgaredd DEALL LLEOEDD.

Sgiliau – Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau

2. defnyddio gwahanol fathau o fapiau, cynlluniau a delweddau ar wahanol raddfeydd a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol
3. esbonio patrymau gofodol nodweddion, lleoedd ac amgylcheddau ar wahanol raddfeydd a'r cydgysylltiad rhyngddynt

Sgiliau – Cyfathrebu

3. cyfleu casgliadau, syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio termau daearyddol, mapiau, delweddau gweledol, amrywiaeth o dechnegau graffigol a TGCh

Asesiad/Gwerthusiad

Gallai'r disgyblion asesu adroddiadau ei gilydd. Gallech ofyn i'r disgyblion ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

1) Ansawdd y labeli ar y map o fap gwaith maes DEALL LLEOEDD
2) O leiaf tri rheswm a esboniwyd yn dda.
3) Un rheswm da yr un am hoffi a pheidio â hoffi'r coed.

Gallai'r disgybl sy'n asesu osod targed i'r gwaith a aseswyd ac yna'i drafod/cytuno arno gyda'r disgybl a ysgrifennodd yr adroddiad.

Dosbarth llawn

Dewiswch un reswm dros hoffi ac un reswm dros beidio â hoffi a glywsoch yn y dosbarth ac ysgrifennwch amdanynt ar ffurf neges testun i ffrind.

3720/06/08

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

LLEOLI LLEOEDD

TAFLEN WAITH DISGYBL

1. **Gan ddefnyddio'r cyflwyniad PowerPoint**
   Pan fyddwch yn gweld pob llun, ysgrifennwch pam credwch chi y mae'r coed ble y maent, neu sut maent yn cael eu defnyddio.
2. **Gan edrych ar eich map gwaith maes o'r gweithgaredd DEALL LLEOEDD**
   Pam **FOD** y coed hyn yn y mannau y daethoch o hyd iddynt? (defnyddiwch eich taflen gofnodi am gliwiau).
3. **Defnyddiwch y we-ddiagram i'ch helpu i esbonio pam mae'r coed yn y mannau lle gwnaethoch chi eu mapio.**
4. **Dywedwch sut mae'r nodweddion ffisegol yn eich helpu i esbonio dosbarthiad y coed.**
5. **Allwch chi ddefnyddio unrhyw hen fapiau o'r ardal i weld ble roedd y coed? Gallaf/Na allaf.**
6. **Dywedwch sut mae'r defnydd a wneir o'r tir ger y coed yn helpu.**
7. **Defnyddiwch y we-ddiagram i helpu.**
8. **Rydych yn arborealydd (arbenigwr mewn coed) ac mae'r cyngor lleol wedi'ch cyflogi i lunio adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y coed yn yr ardal. Mae'n rhaid i chi esbonio i'r cyngor y gwahanol resymau pam mae'r coed sydd yn yr ardal yn y mannau y maen nhw.**

   Dylai eich adroddiad:

   - Ddechrau gyda'r map wnaethoch chi o'r gwaith maes. Bydd arnoch angen labelu'r mannau yr ydych yn ysgrifennu amdanynt.
   - Esbonio pob rheswm yn ei dro.
   - Gorffen gyda brawddeg yn nodi beth ydych CHI yn ei hoffi/ddim yn ei hoffi am y coed.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

These sheets have been designed to be shared. Feel free to photocopy and provide to colleagues.
The Woodland Trust is the UK's leading woodland conservation charity dedicated to the protection of our native woodland heritage. **www.woodlandtrust.org.uk** **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

LLEOLI LLEOEDD



The Tree Register
ancient tree FORUM
Heritage LOTTERY FUNDED
Esmée Fairbairn FOUNDATION
SCOTTISH NATURAL HERITAGE
wcva

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST